# LLETYGARWCH

Fel rheol, bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Lletygarwch y gallu i:

- Ddangos datblygiad gwybodaeth yn ei bwnc astudio penodol a deall y pwnc trwy ymarfer myfyriol academaidd a phroffesiynol.
- Defnyddio damcaniaethau, cysyniadau a gwybodaeth berthnasol yng nghyd-destun y diwydiant lletygarwch.
- Ymchwilio ac asesu ffeithiau, damcaniaethau, patrymau, egwyddorion a chysyniadau perthnasol i'r pwnc.
- Asesu, dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth yn feirniadol a dadansoddi data, testunau, a thueddiadau gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn briodol.
- Nodi a datrys problemau trwy ddefnyddio technegau a dulliau arloesol.
- Datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol er mwyn gallu ymateb yn briodol i heriau yn y diwydiant.
- Dangos gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â chyfrifoldeb cymdeithasol, corfforaethol ac ymateb i faterion moesol, moesegol, amgylcheddol a diogelwch. Mae'r rhain yn ymwneud â'r pwnc yn uniongyrchol, gan gynnwys deddfwriaeth a chodau ymarfer proffesiynol perthnasol.
- Defnyddio sgiliau cyfathrebu a chyflwyno.
- Cyflwyno dadl gadarn wedi'i chynllunio a'i chyflwyno'n glir.
- Rhyngweithio'n effeithiol gydag unigolion a grwpiau, trefnu tîm yn effeithiol a pharchu gwerthoedd, credoau a barn pobl eraill.
- Gwerthuso ac ystyried effeithlonrwydd timau a pherfformiad neu gyfraniad yr unigolyn, gan gynnwys arwain grwp.
- Trefnu gwaith a dysgu'n annibynnol, cynllunio ac ymateb i newid.
- Defnyddio offer a thechnegau rhifiadol er mwyn mynd i'r afael â ffigurau ac ystadegau gan ddefnyddio sgiliau rhifedd a TGCh.
- Bod yn gyfrifol am eich dysgu eich hun a'ch datblygiad proffesiynol parhaus trwy ddatblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynglyn â'r ffordd i ddysgu, cydnabod pwysigrwydd cynllunio datblygiad personol, y gallu i ddangos y sgiliau yr ydych wedi'u meithrin, a chyflwyno tystiolaeth.
- Gallu myfyrio ar eich gwaith a bod yn hunan-feirniadol gan weld eich hun mewn perthynas ag eraill.
- Cynllunio, dylunio, cyflawni a chyflwyno darn o waith annibynnol, gan ddefnyddio cyfrwng priodol.
- Adolygu a dadansoddi'r ffactorau gwleidyddol, technegol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am letygarwch.

Trosolwg o Letygarwch

Bydd gan raddedigion lletygarwch ddealltwriaeth o'r cysyniadau sy'n sail i brofiad y defnyddwyr a diddordeb mewn cyfoethogi profiadau bywyd pobl, fel defnyddwyr, pobl sy'n cymryd rhan a darparwyr gwasanaethau. Mae gradd mewn lletygarwch yn cynnig addysg broffesiynol ac academaidd o'r radd flaenaf i raddedigion sy'n rhoi amryw o sgiliau deallusol, busnes a galwedigaethol iddynt. Mae'r rhain yn ofynnol er mwyn dilyn gyrfa ym maes lletygarwch ac yn berthnasol iawn hefyd mewn sectorau eraill.

Ffynhonnell: CIHE 2006